## P-04-594 Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri ynghylch y Gofeb i'r Tywysog Llywelyn

**Manylion:**

Oherwydd pwysigrwydd cenedlaethol Cofeb y Tywysog Llywelyn, mae cymuned Cilmeri yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

• Godi arwyddion brown at y gofeb â delwedd o faes brwydr arnynt ar yr A483 ar y ddwy brif ffordd sy'n mynd i mewn i'r pentref er mwyn dynodi arwyddocâd hanesyddol ein pentref;

• Gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Powys, Cyngor Cymuned Cilmeri a Cadw i helpu â gwaith cynnal a chadw'r gofeb enwog, er mwyn i ymwelwyr allu mwynhau ein safle sydd o arwyddocâd cenedlaethol a hanesyddol mewn amgylchedd diogel a phriodol;

• Helpu i ddod o hyd i adnoddau i weithredu, gam wrth gam, Cynllun Dehongli Lloyd Brown (Ionawr 2013) a gomisiynwyd gan Cadw.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae'r cynllun dehongli yn rhoi sylw i'r ffaith mai Llywelyn oedd Tywysog brodorol olaf Cymru i farw ar faes y gad, gan nodi diwedd llinach bwerus Gwynedd, a oedd yn bwysig wrth feithrin ymdeimlad o genedligrwydd a hunaniaeth Gymreig.

**Prif ddeisebydd:** Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 23 Medi 2014

**Nifer y llofnodion:** 305